OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 51 (Cy.11)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Ionawr 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Ionawr 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2013* |

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac sydd bellach wedi ei freinio ynddynt hwy(**2**).

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i Orchymyn gael ei wneud o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o'i ardal.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu De Cymru yn unol â gofynion paragraff 8(3) o Atodlen 8 a pharagraff 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

### Dynodi ardal gorfodi sifil ac ardal gorfodi arbennig

**2.** Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(b) ardal gorfodi arbennig.

(**1**) 2004 p.18.

(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Yn rhinwedd adran 92 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, dynodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru, at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf honno.

***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

14 Ionawr 2013

## YR ATODLEN

Erthygl 2

**Ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig**

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Fwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn gyfan ac eithrio—

(a) Traffordd yr M4 gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael o'r ffin â Dinas a Sir Caerdydd wrth bwynt sydd ar ochr orllewinol y drosbont orllewinol wrth Gyffordd 33, i'r ffin â Rhondda Cynon Taf wrth bwynt sydd tua 260 o fetrau i'r gorllewin o ganol Cyffordd 34;

(b) ffyrdd y Weinyddiaeth Amddiffyn sydd o fewn Sain Tathan gan gynnwys—

Y darn cyfan o Aled Way o'i chyffordd â Flemingston Road;

Y darnau cyfan o Talybont Close, Clwyd Way, Margam Close, Tintern Close a Celyn Close o'u cyffyrdd ag Aled Way;

Y darnau cyfan o Crynant Close ac Ebbw Close o'u cyffyrdd â Clwyd Close;

Y darn cyfan o'r ffordd ddienw sy'n wynebu Eglwys a Chanolfan Gymunedol "The Gathering Place" o'i chyffordd â Flemingston Road.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn ardal gorfodi sifil ac yn ardal gorfodi arbennig at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Effaith ymarferol y Gorchymyn yw galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg i orfodi'r gyfraith ar dramgwyddau parcio o fewn yr ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn drwy gyfundrefn cyfraith sifil, mewn cyferbyniad â gorfodi'r gyfraith gan yr heddlu neu wardeiniaid traffig yng nghyd-destun cyfraith trosedd.

Gellir cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/buslegislation/bus/bus-legislation-sub/bus-legislation-sub-annulment.htm